


# Mesuryddion newydd, meddylfryd newydd

Croeso i ffordd newydd o feddwl am eich ynni. Ynghyd â'r canllaw i ddefnyddwyr a ddaw gyda'ch Dangosydd Cartref, rydyn ni wedi llunio canllaw byr i'ch helpu chi i fanteisio i'r eithaf ar y dechnoleg newydd hon.

SCP6805 XXX 17

## Cymorth ychwanegol gyda'n Gwasanaethau Blaenoriaeth

Rydyn ni am roi gymaint o gymorth ag y bo modd i'r cwsmeriaid hynny sydd angen y cymorth hwnnw. Gallech chi fod yn gymwys i fod ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth am amrywiaeth o resymau, e.e. salwch cronig, anabledd, neu newid yn eich amgylchiadau personol. Os ydyn ni'n dod yn ymwybodol y byddech chi (neu rywun yn eich cartref) ar eich ennill gydag unrhyw un o'n Gwasanaethau Blaenoriaeth, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr – neu, gallwch chi roi gwybod i ni os ydych chi'n credu eich bod yn gymwys. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/psr** neu ffoniwch ni am ddim ar **0800 027 0072**.

## Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar

Rydyn ni'n gweithio yn ôl y Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar (SMICoP) gorfodol, sy'n pennu'r safonau gofynnol y mae'n rhaid i aelodau o'r Cod eu dilyn yng nghyswllt gosod mesuryddion clyfar. Prif amcanion y cod hwn yw sicrhau eich bod yn cael gwasanaeth o safon, eich bod yn gwybod sut i ddefnyddio eich mesurydd clyfar, a'ch bod wedi cael esboniad ynghylch sut gallwch chi wella eich effeithlonrwydd ynni yn sgil eich mesurydd clyfar. I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.smicop.co.uk

## Chwilio am ragor o wybodaeth?
## Ewch i scottishpower.co.uk/smartmeters

Ffoniwch ni am ddim ar: **0800 027 0072**
neu drwy Minicom: **0800 027 8899**
Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8.30am ac 6pm ar ddydd Sadwrn

Os ydych chi'n ffonio o'r tu allan i'r DU:
**+44 800 027 0072** *(codir cyfraddau ffonio rhyngwladol)*

**ScottishPower, Customer Care**
Cathcart Business Park, Spean Street,
Glasgow G44 4BE

contactus@scottishpower.co.uk
**scottishpower.co.uk**

SCOTTISHPOWER

# Eich canllaw ar gyfer manteisio i'r eithaf ar eich mesuryddion clyfar newydd



SCOTTISHPOWER

# Mwy o reolaeth er mwyn arbed arian

Nawr fod eich mesuryddion clyfar wedi cael eu gosod, gobeithio y byddwch chi'n sylwi ar wahaniaeth yn y ffordd rydych chi'n meddwl am eich defnydd o nwy a thrydan. Drwy ddefnyddio eich Dangosydd Cartref defnyddiol, byddwch chi'n gallu:

- gweld gwybodaeth amser real gywir ynghylch y trydan rydych chi'n ei ddefnyddio
- cael syniad gwell o lawer o ran cost gwneud pethau, a hynny mewn punnoedd a cheiniogau
- cael syniad mwy clir o lawer ynghylch lle rydych chi'n gwario arian, er mwyn i chi allu gweld lle mae modd lleihau unrhyw ddefnydd diangen o drydan.

# Gwnewch arbedion ynni clyfar

Fe all cartref cyffredin yn y DU arbed tua £30 y flwyddyn drwy wneud dim mwy na chofio diffodd dyfeisiau yn gyfan gwbl yn hytrach na'u gadael ar y golau coch. **Diffoddwch eich teledu, eich cyfrifiadur a'ch consol a gallech chi leihau eich costau ynni.**

Pe bai cartref cyffredin yn newid pob bwlb hen ffasiwn am fylbiau golau fflworoleuol cryno (CFLs), a phob bwlb halogen am rai LED, fe allai'r cartref **arbed tua £35 y flwyddyn ar filiau.**

Fe allai troi thermostat eich ystafell i lawr hyd yn oed un radd **arbed rhwng £85 a £90 y flwyddyn.**

**Dyma sut i gael Cyngor Diduedd Am ddim ar Arbed Ynni:**

**Yr Alban** – Home Energy Scotland – 0808 808 2282 am ddim
neu ewch i www.homeenergyscotland.org

**Cymru a Lloegr** – y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni – 0300 123 1234
*(mae'r galwadau'n costio'r gyfradd genedlaethol safonol)*
neu ewch i www.energysavingstrust.org.uk

# Beth mae clyfar yn ei olygu i chi

**Dim mwy o amcangyfrif biliau**

Nawr fod eich mesuryddion clyfar ar waith, mae llawer o fanteision gwych y gallwch eu mwynhau ar unwaith. Yn gyntaf, ni fydd raid i chi gyflwyno darlleniadau mesurydd na chael pobl yn dod i ddarllen eich mesurydd. Fe fyddwn ni'n cael darlleniadau gan eich mesuryddion clyfar o bell. Bydd hyn nid yn unig yn hwylus i chi; bydd hefyd yn rhoi mesuriad cywir o'ch defnydd ynni i ni, sy'n golygu na fydd biliau'n cael eu hamcangyfrifo mwyach, ac y byddwch chi dim ond yn talu am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio.

# Data eich mesurydd clyfar

Fe allwn ni gael y darlleniadau yn uniongyrchol o'ch mesuryddion clyfar yn awtomatig. Mae hyn yn golygu na fydd gofyn i chi gyflwyno darlleniadau mesurydd eich hun mwyach. Eich penderfyniad chi yw pa mor aml y byddwn ni'n cael eich darlleniadau – gall hyn fod yn fisol, yn ddyddiol, neu bob hanner awr. Yn ogystal â defnyddio eich darlleniadau i roi bil cywir i chi, byddwn ni hefyd yn eu defnyddio i ddarparu eich graffiau defnydd a chyngor effeithlonrwydd ynni personol drwy'r ap a'ch cyfrif ar-lein. Po amlaf y byddwn ni'n cael eich darlleniadau, y mwyaf personol a manwl y bydd y wybodaeth – felly rydyn ni'n argymell eich bod yn dewis darlleniadau bob hanner awr. Mae modd i chi newid amlder darlleniadau eich mesurydd ar unrhyw adeg drwy fynd i **scottishpower.co.uk/updatedetails** neu ein ffonio am ddim ar **0800 027 0072**.

Rydyn ni ar agor rhwng 8am a 10pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8.30am a 6pm ar ddydd Sadwrn.

Os na fyddwn yn clywed gennych chi cyn pen 7 diwrnod ar ôl gosod eich mesurydd, byddwn yn dechrau cael eich darlleniadau yn ddyddiol.

Sylwch: ni fyddwn yn defnyddio eich data at ddibenion marchnata, ac ni fyddwn byth yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon at eu dibenion marchnata nhw.

I gael cyngor annibynnol ynghylch eich hawliau a'ch dewisiadau yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.org.uk neu drwy Linell Gymorth y Swyddfa ar 0303 123 1113.

# Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw'r manteision o gyflwyno data yn awtomatig bob hanner awr?**
Ni fydd rhaid i chi gyflwyno darlleniadau mesurydd i ni eich hun mwyach. Bydd darlleniadau'r mesuryddion clyfar yn cael eu cyflwyno i ni'n awtomatig, sy'n golygu biliau cywir a'ch bod dim ond yn talu am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio. Yn ogystal â defnyddio eich darlleniadau i roi bil cywir i chi, byddwn ni hefyd yn eu defnyddio i ddarparu eich graffiau defnydd ac i roi cyngor personol ar effeithlonrwydd ynni drwy eich cyfrif ar-lein. Po amlaf y byddwn yn cael eich darlleniadau, y mwyaf personol a manwl y bydd y wybodaeth. Gallwch chi gofrestru am gyfrif ar-lein am ddim yn **scottishpower.co.uk**

**Ble ddylwn i gadw fy Nangosydd Cartref?**
Fe ddylech chi gadw'r Dangosydd Cartref yn rhywle sy'n hwylus i chi ei weld a'i ddefnyddio, ond gwnewch yn siŵr ei fod mewn lleoliad a fydd yn cynnal cysylltiad â'ch mesuryddion. Yn debyg i bob dyfais ddi-wifr, weithiau bydd signal y Dangosydd yn isel, neu bydd yn colli cysylltiad â'ch mesuryddion clyfar. Y ffordd hawsaf o fynd i'r afael â hyn yw diffodd y ddyfais (drwy bwyso'r botwm on/off ar gefn yr uned) am ddeg eiliad a symud yr uned yn agosach i'ch mesuryddion. Ar ôl ei symud i rywle agosach, trowch yr uned ymlaen eto – fe ddylai hyn adfer y cysylltiad a bydd eich Dangosydd yn dechrau dangos eich data. Caiff eich data ei adnewyddu cyn pen 30 munud o adfer y cysylltiad fel arfer. Mae'r batri mewnol yn eich galluogi chi i gario'r Dangosydd o gwmpas y cartref er mwyn ymchwilio i effeithiau troi dyfeisiau ymlaen a'u diffodd. Bydd y batri hwn yn para am tua awr cyn y bydd angen ailgysylltu'r ddyfais â'r ffynhonnell bŵer.

**Pam ydw i wedi cael bil wedi ei amcangyfrif unwaith eto?**
Efallai na chawsom ni ddarlleniad cywir cyn gosod eich mesuryddion clyfar newydd. Peidiwch â phoeni, caiff hyn ei adlewyrchu'n gywir yn eich bil nesaf. Neu efallai fod amhariad wedi bod ar signal y cyfathrebiadau di-wifr, a achosodd i ni beidio â chael darlleniadau eich mesurydd. Caiff hyn ei gywiro ar ôl adfer y signal.

**Pam nad yw fy mil yn cyfateb i'r ynni sy'n cael ei ddangos ar fy Nangosydd Cartref?**
Fe allai hyn fod o ganlyniad i newid mewn prisiau neu gynnyrch yn ddiweddar, ac fe all gymryd ychydig ddiwrnodau i'ch Dangosydd Cartref adlewyrchu'r newid hwn. Dydy eich Dangosydd Cartref ddim chwaith yn cynnwys TAW, gostyngiadau neu ddyled ar eich cyfrif.

**Pam mae fy mil yn llawer drytach/rhatach nag o'r blaen?**
Nawr ein bod yn cael darlleniadau cywir yn uniongyrchol o'ch mesuryddion clyfar, mae eich biliau bellach yn seiliedig yn gyfan gwbl ar yr ynni rydych chi wedi ei ddefnyddio, yn hytrach nag ar ffigurau wedi eu hamcangyfrif. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn **scottishpower.co.uk/smartbill**. Er y byddwn yn cael darlleniadau yn ddyddiol, byddwn yn dal i'ch bilio yn unol â'ch amserlen filio arferol.

**Beth dylwn i ei wneud os ydw i'n symud tŷ ar ôl i fy mesuryddion cartref gael eu gosod?**
Fel arfer, dylech gysylltu â ni 24 awr o leiaf cyn eich dyddiad symud. Bydd hynny'n ein galluogi ni i glirio unrhyw ddata defnydd o'ch mesuryddion a'ch Dangosydd Cartref o bell, ac i gymryd darlleniad mesurydd terfynol cyn i'r preswylwyr newydd symud i mewn. Cofiwch hefyd adael y Dangosydd Cartref yn y tŷ i'r perchnogion newydd.